Sunday 5th May 2024
+ The Sixth Sunday of Easter

## The Collect of the Day

God our redeemer, you have delivered us from the power of darkness and brought us into the kingdom of your Son: grant, that as by his death he has recalled us to life, so by his continual presence in us he may raise us to eternal joy; through Jesus Christ your Son our Lord, who is alive and reigns with you and the Holy Spirit, one God, now and for ever. AMEN

## The reading from Acts
(10.44-48)

While Peter was speaking, the Holy Spirit fell upon all who heard the word. The circumcised believers who had come with Peter were astounded that the gift of the Holy Spirit had been poured out even on the Gentiles, for they heard them speaking in tongues and extolling God.

Then Peter said, 'Can anyone withhold the water for baptizing these people who have received the Holy Spirit just as we have?' So he ordered them to be baptized in the name of Jesus Christ. Then they invited him to stay for several days.

## The Psalm
(98)

Sing to the Lord a new song for he has done marvellous things. His own right hand and his holy arm have won for him the victory.

The Lord has made known his sal/vation his deliverance has he openly shown in the sight of the nations. He has remembered his mercy and faithfulness towards the house of Israel and all the ends of the earth have seen the salvation of our God.

Sound praises to the Lord, all the earth break into singing and make music. Make music to the Lord with the lyre with the lyre and the voice of melody.

With trumpets and the sound of the horn sound praises before the Lord, the King. Let the sea thunder and all that fills it the world and all that dwell upon it.

Let the rivers clap their hands and let the hills ring out together before the Lord, for he comes to judge the earth. In righteousness shall he judge the world: and the peoples with equity.

## The reading from I John
(5.1-6)

Everyone who believes that Jesus is the Christ has been born of God, and everyone who loves the parent loves the child. By this we know that we love the children of God, when we love God and obey his command-ments. For the love of God is this, that we obey his commandments. And his commandments are not burdensome, for whatever is born of God conquers the world. And this is the victory that conquers the world, our faith. Who is it that conquers the world but the one who believes that Jesus is the Son of God?

This is the one who came by water and blood, Jesus Christ, not with the water only but with the water and the blood. And the Spirit is the one that testifies, for the Spirit is the truth.

## The reading from the Gospel according to Saint John
(15.9-17)

Jesus said to his disciples: 'As the Father has loved me, so I have loved you; abide in my love. If you keep my commandments, you will abide in my love, just as I have kept my Father's commandments and abide in his love. I have said these things to you so that my joy may be in you, and that your joy may be complete.

'This is my commandment, that you love one another as I have loved you. No one has greater love than this, to lay down one's life for one's friends. You are my friends if you do what I command you. I do not call you servants any longer, because the servant does not know what the master is doing; but I have called you friends, because I have made known to you everything that I have heard from my Father.

'You did not choose me but I chose you. And I appointed you to go and bear fruit, fruit that will last, so that the Father will give you whatever you ask him in my name. I am giving you these commands so that you may love one another.'

## The Collect following Communion

Bountiful God, your Son Jesus Christ gives the water of eternal life: may we thirst for you, the spring of life and source of goodness, through him who is alive and reigns, now and for ever. AMEN



*Text from the Church in Wales – Word of the Lord 2011* copyright © Church in Wales Publications 2011. Collects and Post Communion Prayers from the book *New Calendar and the Collects.* Copyright © The Representative Body of the Church in Wales 2003 ISBN – 1853115495. Quotations and Psalms from *The New Revised Standard Version (Anglicized Edition)*, copyright 1989, 1995 by the Division of Christian Education of the National Council of the Churches of Christ in the United States of America. Used as permitted.

## Dydd Sul 5ed Mai 2024
## + Chweched Sul y Pasg

### Colect y Dydd

O Dduw ein hiachawdwr, gwaredaist ni rhag galluoedd y tywyllwch a’n dwyn i deyrnas dy Fab: caniatâ iddo ef a’n galwodd ni’n ôl i fywyd trwy ei angau, ein cyfodi i lawenydd tragwyddol trwy ei bresenoldeb parhaus ynom ni;  trwy Iesu Grist dy Fab ein Harglwydd, sy’n fyw ac yn teyrnasu gyda thi a’r Ysbryd Glân, yn un Duw, yn awr ac am byth. AMEN

### Darlleniad o Actau
(10.44-48)

Tra oedd Pedr yn dal i lefaru'r pethau hyn, syrthiodd yr Ysbryd Glân ar bawb oedd yn gwrando'r gair. Synnodd y credinwyr Iddewig, cynifer ag oedd wedi dod gyda Pedr, am fod rhodd yr Ysbryd Glân wedi ei thywallt hyd yn oed ar y Cenhedloedd; oherwydd yr oeddent yn eu clywed yn llefaru â thafodau ac yn mawrygu Duw.

Yna dywedodd Pedr, "A all unrhyw un wrthod y dŵr i fedyddio'r rhain, a hwythau wedi derbyn yr Ysbryd Glân fel ninnau?" A gorchmynnodd eu bedyddio hwy yn enw Iesu Grist. Yna gofynasant iddo aros am rai dyddiau.

### Salm
(98)

Canwch i'r ARGLWYDD gân newydd, oherwydd gwnaeth ryfeddodau. Cafodd fuddugoliaeth â'i ddeheulaw ac â'i fraich sanctaidd. Gwnaeth yr ARGLWYDD ei fuddugoliaeth yn hysbys, datguddiodd ei gyfiawnder o flaen y cenhedloedd.

Cofiodd ei gariad a'i ffyddlondeb tuag at dŷ Israel; gwelodd holl gyrrau'r ddaear fuddugoliaeth ein Duw. Bloeddiwch mewn gorfoledd i'r ARGLWYDD, yr holl ddaear, canwch mewn llawenydd a rhowch fawl.

Canwch fawl i'r ARGLWYDD â'r delyn, â'r delyn ac â sain cân. Â thrwmpedau ac â sain utgorn bloeddiwch o flaen y Brenin, yr ARGLWYDD.

Rhued y môr a'r cyfan sydd ynddo, y byd a phawb sy'n byw ynddo. Bydded i'r dyfroedd guro dwylo; bydded i'r mynyddoedd ganu'n llawen gyda'i gilydd,

o flaen yr ARGLWYDD, oherwydd y mae'n dyfod i farnu'r ddaear; bydd yn barnu'r byd â chyfiawnder, a'r bobloedd ag uniondeb.

### Darlleniad o I Ioan
(5.1-6)

Pob un sy'n credu mai Iesu yw'r Crist, y mae wedi ei eni o Dduw; ac y mae pawb sy'n caru tad yn caru ei blentyn hefyd. Dyma sut yr ydym yn gwybod ein bod yn caru plant Duw: pan fyddwn yn caru Duw ac yn cadw ei orchmynion. Oherwydd dyma yw caru Duw: bod inni gadw ei orchmynion. Ac nid yw ei orchmynion ef yn feichus, am fod pawb sydd wedi eu geni o Dduw yn gorchfygu'r byd. Hon yw'r oruchafiaeth a orchfygodd y byd: ein ffydd ni. Pwy yw gorchfygwr y byd ond y sawl sy'n credu mai Iesu yw Mab Duw?

Dyma'r un a ddaeth drwy ddŵr a gwaed, Iesu Grist; nid trwy ddŵr yn unig, ond trwy'r dŵr a thrwy'r gwaed. Yr Ysbryd yw'r tyst, am mai'r Ysbryd yw'r gwirionedd.

### Gwrandewch Efengyl Crist yn ôl Sant Ioan
(15.9-17)

‘Fel y mae'r Tad wedi fy ngharu i, yr wyf finnau wedi eich caru chwi. Arhoswch yn fy nghariad i. Os cadwch fy ngorch-mynion fe arhoswch yn fy nghariad, yn union fel yr wyf fi wedi cadw gorchmynion fy Nhad, ac yr wyf yn aros yn ei gariad ef. "Yr wyf wedi dweud hyn wrthych er mwyn i'm llawenydd i fod ynoch, ac i'ch llawenydd chwi fod yn gyflawn.

‘Dyma fy ngorchymyn i: carwch eich gilydd fel y cerais i chwi. Nid oes gan neb gariad mwy na hyn, sef bod rhywun yn rhoi ei einioes dros ei gyfeillion. Yr ydych chwi'n gyfeillion i mi os gwnewch yr hyn yr wyf fi'n ei orchymyn ichwi. Nid wyf mwyach yn eich galw yn weision, oherwydd nid yw'r gwas yn gwybod beth y mae ei feistr yn ei wneud. Yr wyf wedi eich galw yn gyfeillion, oherwydd yr wyf wedi gwneud yn hysbys i chwi bob peth a glywais gan fy Nhad.

‘Nid chwi a'm dewisodd i, ond myfi a'ch dewisodd chwi, a'ch penodi i fynd allan a dwyn ffrwyth, ffrwyth sy'n aros. Ac yna, fe rydd y Tad i chwi beth bynnag a ofynnwch ganddo yn fy enw i. Dyma’r gorchymyn yr wyf yn ei roi i chwi: carwch eich gilydd.’

### Defynddir gweddi ôl- ynghyd

O Dduw haelionus, dy Fab Iesu Grist sy’n rhoi dŵr y bywyd tragwyddol:  bydded i ni sychedu amdanat ti, ffynnon bywyd a ffynhonnell daioni, trwyddo ef sy’n fyw ac yn teyrnasu, yn awr a hyd byth.  AMEN



*Testun allan o Gair yr Arglwydd 2011 – yr Eglwys yng Nghymru*. Hawlfraint Cyhoeddiadau’r Eglwys yng Nghymru 2011.  Colectau a Gweddïau Ôl-Gymun o’r llyfr *Y Calendr Newydd a’r Colectau* Hawlfraint Corff Cynrychiolwyr yr Eglwys yng Nghymru 2003 ISBN – 1853115495. Dyfyniadau a Salmau trwy ganiatâd o’r *Beibl Cymraeg Newydd Diwygiedig 2004*
Cymdeithas (Brydeinig a Thramor) y Beibl. Cedwir pob hawl.